



City & Guilds Lefel 3 Dyfarniad mewn Addysg a Hyfforddiant (6502)

Medi 2024 Fersiwn1.6

Llawlyfr y Cymhwyster

Ciplowg ar y cymhwyster

Maes pwnc	Addysgu a dysgu
Rhif City & Guilds	6502
Grŵp oedran wedi'i gymeradwyo	19+
Gofynion mynediad	Does dim gofynion mynediad ffurfiol. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gael tystiolaeth o sgiliau galwedigaethol lefel 3 am y maes y byddan nhw'n addysgu/hyfforddi ynddo os ydyn nhw am fynd ymlaen i addysgu yn y sector addysg bellach a sgiliau. Mae manylion pellach i'w cael yn Adran 2
Asesu	Caiff y cymhwyster ei asesu gan gyfuniad o aseiniadau ac arsylwi addysgu neu hyfforddi. Caniateir efelychu (micro-addysgu) ar gyfer Uned 2. Darperir awgrymiadau am weithgareddau asesu crynodol ar ffurf aseiniadau enghreifftiol mewn pecyn asesu, sydd ar gael ar wefan City & Guilds. www.cityandguilds.com Cynigir yr aseiniadau enghreifftiol yn y pecyn asesu i ganolfannau mewn ymgais i sicrhau bod dysgwyr yn cwrrdd â'r holl feini prawf asesu. Rhoddir pecyn atebion gyda'r pecyn asesu, sy'n cynnwys atebion enghreifftiol ar gyfer yr aseiniadau enghreifftiol.
Llwybr carlam	Ar gael
Deunyddiau cefnogi	Llawlyfr cymhwyster Pecyn asesu Pecyn atebion Sgrin glyfar Llyfr gosod Cymhwyster
Cofrestru ac ardystio	Gweler y Walled Garden /Catalog Ar-lein ar gyfer y dyddiadau olaf

Teitl a lefel	ODDA	CAC	Rhif City & Guilds	Rhif achredu
Lefel 3 Dyfarniad mewn Addysg a Hyfforddiant (Unedau E&T yn unig)	48	120	6502-31	600/9554/4
Lefel 3 Dyfarniad mewn Addysg a Hyfforddiant (unedau E&T, TAQA ac L&D)	48	120	6502-32	600/9554/4
Lefel 3 Dyfarniad mewn Addysg a Hyfforddiant (llwybr unedau E&T, TAQA ac L&D)	48	120	6502-92	600/9554/4
Lefel 3 Dyfarniad mewn Addysg a Hyfforddiant (llwybr unedau E&T)	48	120	6502-93	600/9554/4

Fersiwn a dyddiad	Newid manylion	Adran
Mai 2014 Fersiwn 1.2	Eglurhad ar gydrannau asesu 306/356	Asesu
Ionawr 2016 Fersiwn 1.3	Dileu atodiad 3, rhifau ffôn a chyfeiriadau	Pob un
Mawrth 2016 Fersiwn 1.4	Symud asesiad 356	Asesu
Hydref 2017 Fersiwn 1.5	Manylion CAC ac ODDA ychwanegol	Cymhwyster yn Gryno, Strwythur
Medi 2024 Fersiwn 1.6	<p>Y ddelwedd wedi cael ei ddileu</p> <p>Clawr wedi ei ddiweddarau</p> <p>Adran 3: Cyflwyno'r cymhwyster – dolenni i'r Pecyn Asesu a'r Pecyn Atebion wedi eu diweddarau.</p> <p>Unedau 303 a 304 – dolen i'r wefan ar gyfer cymhwyster 6318 wedi ei ddiweddarau</p> <p>Aseiniad 306 yn cael ei asesu trwy aseiniad. Mathau blaenorol o asesu wedi cael eu dileu.</p> <p>Mae'r newidiadau canlynol yn adlewyrchu'r newidiadau hyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adran deunyddiau cefnogol. • Adran 4: Asesu – Uned 306 dull asesu wedi ei ddiweddarau. • Uned 306: Deall egwyddorion ac ymarferion asesu – <ul style="list-style-type: none"> i) Gwybodaeth asesu wedi ei ddiweddarau ii) Gwybodaeth gefnogol – Adran arweiniol, y ddolen i'r wefan ar gyfer cymhwyster 6317 wedi ei ddiweddarau. <p>Atodiad 1: Gofynion darparu ac asesu unedau Dysgu a Datblygiad ac atodiad unedau wedi ei ddileu gan fod gwybodaeth am sicrhau ansawdd yn cael ei gynnwys yn yr atodiad ffynonellau o wybodaeth gyffredinol.</p> <p>Atodiad 2 nawr fel Atodiad 1: Perthnasau i gymwysterau eraill. Mae'r atodiad hwn wedi ei ddiweddarau gyda'r dolenni we a chodau cynnyrch diweddaraf.</p>	<p>Pob un</p> <p>Clawr</p> <p>12</p> <p>17</p> <p>13</p> <p>17</p> <p>37</p> <p>40</p> <p>Atodiad 1</p>

	<p>Atodiad 3 nawr yn Atodiad 2: Ffynonellau o wybodaeth gyffredinol. Mae'r atodiad hwn wedi ei ddiweddarau gan gynnwys yr adran 'Cysylltiadau Defnyddiol'.</p> <p>Dolenni we wedi eu diweddarau.</p> <p>Am City & Guilds a gwybodaeth hawfrint – wedi eu diweddarau.</p>	<p>Atodiad 2</p> <p>Pob un</p> <p>Tudalen cefn</p>
--	--	--

Cynnwys

1	Cyflwyniad	5
	Nodweddion allweddol Lefel 3 Dyfarniad mewn Addysg a Hyfforddiant	6
2	Gofynion y ganolfan	9
	Cymeradwyaeth	9
	Gofynion adnoddau	9
	Gofynion mynediad dysgwyr	10
3	Cyflwyno'r cymhwyster	12
	Aseiad cychwynnol ac ymsefydlu	12
4	Asesu	15
	Strategaeth asesu	16
5	Unedau	19
Uned 301	Deall rolau, cyfrifoldebau a chysylltiadau mewn addysg a hyfforddiant	20
Uned 302	Deall a defnyddio dulliau addysgu a dysgu cynhwysol mewn addysg a hyfforddiant	23
Uned 303	Hwyluso dysgu a datblygiad i unigolion	26
Uned 304	Hwyluso dysgu a datblygiad mewn grwpiau	29
Uned 305	Deall aseiad mewn addysg a hyfforddiant	32
Uned 306	Deall egwyddorion ac arferion asesu	35
Atodiad 1	Gofynion ar gyfer cyflwyno ac asesu unedau Dysgu a Datblygiad	39
Atodiad 2	Cysylltiadau â chymwysterau eraill	41
Atodiad 3	Ffynonellau gwybodaeth gyffredinol	43

1 Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth a fydd yn cefnogi sefydliadau i ddatblygu eu rhaglen gymwysterau.

Mae Lefel 3 Dyfarniad mewn Addysg a Hyfforddiant yn gyflwyniad ar sail gwybodaeth i addysgu a/neu hyfforddi heb fod ganddo ofyniad ymarfer addysgu/hyfforddi. Gellir ei gymryd felly gan ymgeiswyr nad ydyn nhw mewn rôl addysgu.

Bydd gan ymgeiswyr sy'n cwblhau'r cymhwyster hwn ddealltwriaeth sylfaenol o rolau a chyfrifoldebau athro/hyfforddwr mewn perthynas â deddfwriaeth, cydraddoldeb, amrywiaeth, cynwysoldeb a diwallu anghenion dysgwyr. Byddant yn gallu dilyniannu dysgu, cynllunio a chyflwyno sesiynau, gan ddefnyddio adnoddau priodol a dulliau addysgu. Byddant hefyd yn gallu nodi nodweddion asesu ac adborth effeithiol.

Maes	Disgrifiad
Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster?	<p>Ar gyfer ymgeiswyr sy'n gweithio, neu sydd eisiau gweithio fel athrawon/hyfforddwyr yn y sector addysg bellach a sgiliau</p> <p>Ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt mewn rôl addysgu/hyfforddi, neu sydd newydd ddechrau rôl addysgu/hyfforddiant</p> <p>Ar gyfer ymgeiswyr sydd eisiau cymhwyster byr i'w galluogi i wneud dewisiadau gyrfa</p> <p>Ar gyfer ymgeiswyr sydd eisoes wedi cyflawni rhai unedau Dysgu a Datblygu y gellir eu cario ymlaen i'r cymhwyster hwn.</p> <p>Ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi cwblhau sgiliau hyfforddwr City & Guilds neu gyflwyniad i gymwysterau hyfforddi (7300 a 1106-01)</p>
Beth mae'r cymhwyster yn ei gwmpasu?	<p>Mae'r cymhwyster yn cwmpasu'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol gan athrawon/hyfforddwyr yn y sector addysg bellach a sgiliau hyfforddi;</p> <ul style="list-style-type: none">• rolau, cyfrifoldebau a pherthnasoedd mewn addysg a hyfforddiant• dulliau addysgu a dysgu cynhwysol• asesu dysgwyr• hwyluso dysgu a datblygiad i unigolion• hwyluso dysgu a datblygiad mewn grwpiau• deall egwyddorion ac arferion asesu

Ydy'r cymhwyster yn rhan o fframwaith neu gynllun?	Mae'r cymhwyster yn gymhwyster rhagarweiniol i gyfres o gymwysterau addysgu. Nid yw'r cymhwyster yn rhan o'r fframwaith prentisiaethau.
Gyda phwy y gwnaethom ddatblygu'r cymhwyster?	Datblygwyd y cymwysterau gyda'r Gwasanaeth Dysgu a Gwella Sgiliau (LSIS).
Pa gyfleoedd sydd ar gyfer dilyniant?	Mae'r cymhwyster yn caniatáu i ymgeiswyr symud ymlaen i gyflogaeth fel athrawon/hyfforddwyr, yn ogystal â'r cymwysterau City & Guilds canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Lefel 4 Dyfarniad mewn Addysg a Hyfforddiant • Lefel 5 Diploma mewn Addysg a Hyfforddiant • Lefel 3 a 4 Dyfarniadau a Diplomâu mewn Dysgu a Datblygiad (6318) • Lefel 3 Asesu a Sicrhau Ansawdd • 6258 Dyfarniadau mewn Cynllunio a Chyflwyno Sesiynau Hyfforddi • 6259 Dyfarniadau/Tystysgrif ar gyfer Ymarferwyr Cefnogi Dysgu • 6255 Saesneg ar gyfer Llythrennedd ac Addysgu Iaith / Mathemateg ar gyfer Addysgu Rhifedd

Nodweddion allweddol Lefel 3 Dyfarniad mewn Addysg a Hyfforddiant

Nid yw'r Dyfarniad Lefel 3 mewn Addysg a hyfforddiant yn gymhwyster addysgu - mae'n gyflwyniad i addysgu a fydd yn rhoi cipolwg ar rolau, cyfrifoldebau a pherthnasoedd mewn addysg a hyfforddiant, sut i gynllunio a chyflwyno sesiynau addysgu/hyfforddi cynhwysol a sut i asesu a rhoi adborth adeiladol a datblygiadol.

Nid yw cyfres 2013 o gymwysterau mewn Addysg a Hyfforddiant wedi ei 'nythu'. Mae chwe uned i ddewis ohonynt - tair yn unedau Addysg a Hyfforddiant a thair yn unedau Dysgu a Datblygu. Mae un uned orfodol Uned 301, sydd hefyd yn uned orfodol yn y Dystysgrif Lefel 4 mewn Addysg a Hyfforddiant. Gelwir hon yn 'uned gyffredin'.

Rhaid i unedau Dysgu a Datblygu, os cânt eu dewis, gael eu cyflwyno a'u hasesu yn unol â'r strategaeth asesu ar gyfer y cymhwyster hwnnw (Atodiad 1).

Rhaid i ganolfannau sy'n dymuno darparu'r unedau Dysgu a Datblygu sicrhau bod ganddynt gymeradwyaeth ar gyfer cymwysterau 6502 a 6317/8.

Gall ymgeiswyr ddarparu'r dystiolaeth ofynnol ar gyfer y cymhwyster hwn dim ond os oes ganddynt wybodaeth a phrofiad mewn pwnc y gallant ac y maent yn dymuno ei addysgu.

I ennill y **Dyfarniad Lefel 3 mewn Addysg a Hyfforddiant** (6502-31) rhaid i ymgeiswyr ennill **12** credyd;

- rhaid ennill **12** credyd

Rhif achredu uned	Rhif uned City & Guilds	City & Guilds	Gwerth credydau	ODDA
Grŵp Gorfodol				
H/505/0053	Uned 301	Deall rolau, cyfrifoldebau a chysylltiadau mewn addysg a hyfforddiant	3	12
D/505/0052	Uned 302	Deall a defnyddio dulliau addysgu a dysgu cynhwysol mewn addysg a hyfforddiant	6	24
R/505/0050	Uned 305	Deall asesu mewn addysg a hyfforddiant	3	12

I ennill y **Dyfarniad Lefel 3 mewn Addysg a Hyfforddiant (gyda Dysgu a Datblygiad)** (6502-32) rhaid i ymgeiswyr ennill lleiafswm o **12** credyd;

- Rhaid ennill **3** chredyd o grŵp gorfodol A;
- A lleiafswm o **6** chredyd o grŵp dewisol B
- A lleiafswm o **3** chredyd o grŵp dewisol C.

Rhif achredu uned	Rhif uned City & Guilds	Teitl yr uned	Gwerth credydau	ODDA
Grŵp Gorfodol A				
H/505/0053	Uned 301	Deall rolau, cyfrifoldebau a chysylltiadau mewn addysg a hyfforddiant	3	12
Grŵp Dewisol B				
D/505/0052	Uned 302	Deall a defnyddio dulliau addysgu a dysgu cynhwysol mewn addysg a hyfforddiant	6	24
J/502/9549	Uned 303	Hwyluso dysgu a datblygiad i unigolion (Uned Dysgu a Datblygiad)	6	25

F/502/9548	Uned 304	Hwyluso dysgu a datblygiad mewn grwpiau (Uned Dysgu a Datblygiad)	6	25
------------	----------	---	---	----

Grŵp Dewisol C

R/505/0050	Uned 305	Deall asesu mewn addysg a hyfforddiant	3	12
------------	----------	--	---	----

D/601/5313	Uned 306	Deall egwyddorion ac arferion asesu (Uned Dysgu a Datblygiad)	3	24
------------	----------	---	---	----

Cyfanswm Amser y Cymhwyster

Cyfanswm amser y Cymhwyster (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y disgwylir i Ddysgwr ei dreulio i ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys oriau dysgu dan arweiniad (sydd wedi'u rhestru ar wahân) ac oriau a dreulir yn paratoi, astudio ac asesu.

Teitl a lefel	ODDA	CAC
Lefel 3 Dyfarniad mewn Addysg a Hyfforddiant (Unedau E&T yn unig)	48	120
Lefel 3 Dyfarniad mewn Addysg a Hyfforddiant (unedau E&T, TAQA ac L&D)	48	120
Lefel 3 Dyfarniad mewn Addysg a Hyfforddiant (llwybr unedau E&T, TAQA ac L&D)	48	120
Lefel 3 Dyfarniad mewn Addysg a Hyfforddiant (llwybr unedau E&T)	48	120

2 Gofynion y ganolfan

Cymeradwyaeth

Os oes gan eich canolfan gymeradwyaeth lawn i gynnig y cyfuniadau sy'n cynnwys yr **Unedau Paratoi i Addysgu yn y Sector Dysgu Gydol Oes** yn unig (6302-13, -14, -90 a -91) neu'r Dystysgrif mewn Addysgu yn y Sector Dysgu Gydol Oes (6304/7304) a'r Diploma mewn Addysgu yn y Sector Dysgu Gydol Oes (6305/7305) gall eich canolfan wneud cais am gymeradwyaeth i gyflwyno'r cyfuniadau Addysg a Hyfforddiant (6502-31 a -93). Os oes gan eich canolfan gymeradwyaeth lawn i gynnig y cyfuniadau sy'n cynnwys yr **Unedau Paratoi i Addysgu a Dysgu a Datblygiad ac Asesu yn y Sector Dysgu gydol Oes** (6302 -03, -04, -11, -22 a -92), gall eich canolfan wneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer y cyfuniadau sy'n cynnwys Addysg a Hyfforddiant, ac unedau Dysgu a Datblygu ac Asesu 6502 (-32 a -92).

Er mwyn cynnig y cymhwyster hwn, bydd angen i ganolfannau newydd gael cymeradwyaeth canolfan a chymhwyster. Cyfeiriwch at *Lawlyfr Canolfannau - Cefnogi Rhagoriaeth Cwsmeriaid* sydd ar gael ar wefan City & Guilds i gael rhagor o wybodaeth.

Gofynion adnoddau

Dylai canolfannau ddefnyddio adnoddau addysgu/hyfforddi sy'n cyd-fynd ag arfer da yn y sector addysg bellach a hyfforddiant. Rhaid i ganolfannau sicrhau bod gan ymgeiswyr fynediad at adnoddau dysgu priodol digonol e.e. testunau, TGCh, technoleg dysgu ac ati.

Staff canolfannau

Rhaid i staff sy'n cyflwyno'r cymhwyster hwn allu dangos eu bod yn bodloni'r gofynion arbenigedd galwedigaethol canlynol. Rhaid iddynt gael:

- cymhwyster addysgu neu hyfforddi¹ neu
- tystiolaeth sylweddol o ddarparu rhaglenni addysgu a/neu hyfforddiant llwyddiannus
- mynediad at arweiniad a chefnogaeth briodol, a
- cymryd rhan barhaus mewn prosesau sicrhau ansawdd rhaglenni cysylltiedig

Rhaid i staff hefyd fod yn gymwys yn alwedigaethol ac yn dechnegol wybodus mewn addysg a/neu hyfforddiant

Rhaid i aelodau tîm newydd:

¹ NID yw hyn yn cynnwys cymwysterau sydd ond yn rhoi cyflwyniad i addysgu, er enghraifft, y Dyfarniad Lefel 3 mewn Addysg a Hyfforddiant, neu'r dyfarniadau PTLLS Lefel 3 neu Lefel 4.

- ymuno â thîm canolfan a derbyn cyfnod sefydlu digonol a mentora a monitro digonol, a gweithio gyda'r tîm nes eu bod yn bodloni'r meini prawf gofynnol. Rhaid cofnodi mentora a chymorth ar gyfer dibenion Sicrhau Ansawdd Allanol.

Mae'n rhaid i arsylwyr micro-addysgu/addysgu:

Bodloni'r gofynion uchod a bod yn aelodau llawn o dîm y ganolfan, gan gyfrannu at gyfarfodydd tîm, cyfarfodydd safoni ac ati.

Gall staff y ganolfan ymgymryd â mwy nag un rôl, e.e. tiwtor ac asesydd neu sicrhawr ansawdd mewnol, ond ni allant sicrhau ansawdd eu hasesiadau eu hunain yn fewnol.

Dylai staff y ganolfan ymgyfarwyddo â strwythur, cynnwys a gofynion asesu'r cymhwyster cyn cynllunio rhaglen cwrs.

Aseswyr a Sicrhawyr Ansawdd Mewnol

Dylai staff y ganolfan feddu, neu fod yn gweithio tuag at, y cymhwyster Asesydd/Sicrhawr Ansawdd Mewnol perthnasol ar gyfer eu rôl wrth gyflwyno, asesu a sicrhau ansawdd mewnol y cymhwyster hwn, neu fodloni'r gofynion profiad perthnasol a amlinellir uchod.

Ceir gofynion ychwanegol ar gyfer y rhai sy'n asesu ac yn sicrhau ansawdd yr unedau Dysgu a Datblygu (unedau 303, 304 a 306). Rhaid i'r rhai sy'n asesu'r unedau hyn gydymffurfio â'r strategaeth asesu ar gyfer y cymhwyster Dysgu a Datblygiad. Ceir hyn yn Atodiad 1.

Datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)

Rhaid i ganolfannau gefnogi staff i sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfredol am y maes galwedigaethol, bod cyflwyno, mentora, hyfforddi, asesu a sicrhau ansawdd mewnol yn unol ag arfer gorau, a'i fod yn ystyried unrhyw ddatblygiadau cenedlaethol neu ddeddfwriaethol.

Gofynion mynediad dysgwr

Nid oes gofynion mynediad ffurfiol ar gyfer y cymhwyster hwn, ond rhaid i ymgeiswyr fod yn ystyried pwnc i'w gyflwyno ac yn anelu at gyflawni/neu fod wedi ennill cymhwyster a/neu fod â phrofiad yn eu pwnc/sgil ar y lefel briodol.

Yn ogystal, mae natur y dysgu a'r asesu sy'n ofynnol ar gyfer y cymhwyster yn golygu y dylai ymgeiswyr allu rheoli gofynion lefel y cymhwyster y maent yn ei gymryd, darllen a dehongli tasgau ysgrifenedig, ac ysgrifennu atebion ar ffurf ddarllenadwy a dealladwy. Dylid cofnodi tystiolaeth o hyn fel rhan o'u hasesiad cychwynnol. Bydd angen hefyd i ymgeiswyr allu trefnu gwybodaeth ysgrifenedig yn glir ac yn ddealladwy.

Dylai pob ymgeisydd ymgymryd ag asesiad cychwynnol o sgiliau mewn Saesneg, mathemateg a TGCh. Dylent gofnodi eu hanghenion datblygu a, lle bo'n berthnasol, cytuno ar gynllun gweithredu i fynd i'r afael â nhw. Os yw ymgeiswyr yn ymgymryd â'r cymhwyster hwn eisoes wedi ymgymryd ag asesiad cychwynnol o Saesneg/Cymraeg, mathemateg a sgiliau TGCh, dylid adolygu a diweddarau'r cofnod o'u hanghenion datblygu

ac unrhyw gynllun gweithredu blaenorol i fynd i'r afael â nhw yn ôl yr angen.

Cyfyngiadau oedran

Nid yw'r cymhwyster hwn wedi'i gymeradwyo ar gyfer unrhyw un o dan 19 oed.

Ystyriaethau cyfreithiol eraill

Dylai ymgeiswyr a chanolfannau fod yn ymwybodol o reoliadau a/neu ofynion sy'n effeithio ar y rhai sy'n ymdrin â phlant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed, a chydymffurfio â nhw.

3 Cyflwyno'r cymhwyster

Asesiad cychwynnol ac ymsefydlu

Yn ogystal â'u hasesiad cychwynnol o Saesneg/Cymraeg, mathemateg a TGCh, neu fel rhan o hyn, dylid gwneud asesiad o bob ymgeisydd cyn dechrau eu rhaglen i nodi:

- a oes gan yr ymgeisydd unrhyw anghenion hyfforddi a datblygu penodol.
- unrhyw gymorth ac anghenion arweiniad y gallai fod eu hangen arnynt wrth weithio tuag at eu cymhwyster.
- unrhyw unedau y maent eisoes wedi'u cwblhau, neu gredyd y maent wedi'i gronni sy'n berthnasol i'r cymhwyster.
- bod y cymhwyster a'r lefel yn briodol i'r dysgwr.

Argymhellir hefyd fod canolfannau'n darparu rhaglen sefydlu fel bod yr ymgeisydd yn deall yn llawn ofynion y cymwysterau, eu cyfrifoldebau fel dysgwr, a chyfrifoldebau'r ganolfan. Gellir cofnodi'r holl wybodaeth yma mewn contract dysgu.

Deunyddiau cefnogi

Mae'r adnoddau canlynol ar gael ar gyfer y cymwysterau hyn:

Disgrifiad	Sut i gael mynediad
Aseiniadau enghreifftiol	Yn y Pecyn Asesu i'w gael ar wefan City & Guilds Education and Training qualifications and training courses City & Guilds (cityandguilds.com)
Mathau o Atebion i Uned 306/meini prawf graddio ar gyfer aseiniadau enghreifftiol	Yn y Pecyn Atebion i'w gael ar wefan City & Guilds Education and Training qualifications and training courses (City & Guilds (cityandguilds.com))
Ffurflenni i ganolfannau	Gellir dod o hyd i ffurflenni yn y Cyflenwi Cymwysterau – Llyfrgell Dogfennau Cymorth Canolfan (City & Guilds (cityandguilds.com))
Smartscreen	Mae SmartScreen.co.uk yn darparu cymorth ar-lein i diwtoriaid, aseswyr a dysgwyr cymwysterau City & Guilds. Mae hyn yn cynnwys y cynnwys Smartscreen ar gyfer y cymwysterau 6317 a 6502. Mae deunyddiau cymorth o ansawdd uchel yn darparu cefnogaeth ategol i'r profiad addysgu a dysgu cyfan. Gallwch danysgrifio o'r Walled Garden neu e-bostiwch eich archeb i directsales@cityandguilds.com .

Cymhwyster
Llyfrau gosod

Llyfr gosod City & Guilds: Lefel 3 Dyfarniad mewn Addysg a Hyfforddiant (ar gael Rhagfyr 2013)
Gellir cyrchu'r *City & Guilds Guide to Practical Assurance Textbooks* o'r Walled Garden neu e-bostiwch eich archeb i
directsales@cityandguilds.com

6317 Lefelau 3
Dyfarniad a
Thystysgrif mewn
Asesu a Sicrhau
Ansawdd

Gwefan City & Guilds
www.cityandguilds.com – rhwch 6317 yn y
'blwch chwilio' ar ochr dde'r dudalen.

6318 Lefel 3 a 4
Dyfarniad a
Thystysgrif mewn
Dysgu a Datblygiad

Gwefan City & Guilds www.cityandguilds.com –
rhwch 6318 yn y 'blwch chwilio' ar ochr dde'r
dudalen.

Gofynion tystiolaeth

Rhagwelir y bydd ymgeiswyr yn darparu tystiolaeth eu bod wedi bodloni'r meini prawf mewn sawl ffordd, ac y dylent gynnwys:

- Aseiniadau i ddangos tystiolaeth o'r meini prawf asesu sy'n seiliedig ar wybodaeth (naill ai o'r Pecyn Asesu a ddarperir neu aseiniadau a ddyfeisiwyd gan ganolfan aseiniadau a gymeradwywyd gan Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol
- Mae'n ofynnol o leiaf i athrawon dan hyfforddiant gymryd rhan mewn micro-addysgu a arsylwyd ac a asesir ar gyfer uned ddewisol 302 Deall a defnyddio dulliau addysgu a dysgu cynhwysol mewn addysg a hyfforddiant. Ar gyfer yr uned hon, rhaid i athrawon/hyfforddwyr dan hyfforddiant fod yn rhan o o leiaf un awr o ficro-addysgu. Rhaid i bob athro/hyfforddwr dan hyfforddiant gyflwyno o leiaf un sesiwn micro-addysgu 15 munud sy'n cael ei harsylwi a'i hasesu gan aelod o'r tîm cyflwyno. Am y 45 munud ychwanegol, gall athrawon/hyfforddwyr dan hyfforddiant naill ai gyflwyno sesiynau micro-addysgu ychwanegol neu arsylwi sesiynau micro-addysgu athrawon eraill dan hyfforddiant. Efallai y bydd athrawon dan hyfforddiant sy'n addysgu ar hyn o bryd yn dymuno defnyddio eu hymarfer i fodloni gofynion yr uned hon yn hytrach na micro-addysgu.

Caniateir dysgu cyfunol, ar yr amod y gall y ganolfan ddangos bod pob agwedd o'r rhaglen wedi'i chynllunio'n ofalus; bod digon o adnoddau priodol ar gael i gefnogi'r ymgeiswyr, a bod eu SSAA wedi cymeradwyo'r rhaglen.

Mae'n annhebygol y bydd dysgu o bell yn darparu cyfleoedd ar gyfer modelu technegau a rhyngweithio ag ymgeiswyr eraill.

Mae'r canlyniad dysgu ar gyfer uned 302 yn ymwneud â chynhyrchu cynllun sesiwn y dylid ei ddefnyddio wedyn ar gyfer y micro-addysgu yn yr un uned. Er nad yw'r deilliannau dysgu ar gyfer unedau 303 a 304 yn cynnwys llunio cynllun sesiwn, dylai ymgeiswyr sy'n dewis y naill neu'r llall o'r unedau hyn gynnwys cynllun sesiwn yn eu tystiolaeth. Dylent hefyd dderbyn adborth am eu cynllun.

Dogfennau cofnodi

Gall ymgeiswyr a chanolfannau benderfynu defnyddio dull papur neu electronig o gofnodi tystiolaeth.

Mae City & Guilds yn cymeradwyo sawl system ePortffolio, gan gynnwys ein Cynorthwy-ydd Dysgu ein hunain, offeryn ar-lein hawdd ei ddefnyddio a diogel i gefnogi a dangos tystiolaeth o gynnydd dysgwyr tuag at ennill cymwysterau. Mae rhagor o fanylion ar gael yn:
www.cityandguilds.com/eportfolios.

Mae City & Guilds wedi datblygu cyfres o ffurflenni cofnodi gan gynnwys enghreifftiau o ffurflenni wedi'u cwblhau, i ganolfannau newydd a phresennol eu defnyddio fel y bo'n briodol. Mae ffurflenni cofnodi ar gael ar wefan City & Guilds.

Er y rhagwelir y bydd canolfannau'n defnyddio'r ffurflenni hyn, gall canolfannau ddyfeisio neu deilwra ffurflenni amgen, y mae'n rhaid i'r SSAA eu cymeradwyo i'w defnyddio, cyn y cânt eu defnyddio gan y dysgwyr a'r aseswyr yn y ganolfan.

Mae fersiynau y gellir eu diwygio (MS Word) o'r ffurflenni ar gael ar wefan City & Guilds

4 Asesu

Rhaid i ymgeiswyr ddarparu digon o dystiolaeth i fodloni'r meini prawf asesu ar gyfer pob uned a ddewiswyd.

Mae City & Guilds wedi darparu'r adnoddau canlynol - mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan City & Guilds:

- Enghreifftiau o aseiniadau a phecynnau ateb ar gyfer unedau 301,302, 305, 306

Mae'r canllaw ateb aseiniad enghreifftiol wedi'i warchod gan gyfrinair – Mae'r cyfrinair ar gael drwy'r Walled Garden.

Gall canolfannau hefyd ddatblygu eu haseiniadau eu hunain ar yr amod eu bod yn galluogi'r ymgeiswyr i fodloni'r holl feini prawf asesu. Rhaid i unrhyw aseiniadau a ddatblygwyd gan ganolfan gael eu cyflwyno i'w SSAA i'w cymeradwyo cyn eu cyflwyno. Cyfeiriwch at y pecyn asesu ar wefan City & Guilds am wybodaeth ychwanegol.

Uned	Teitl	Dull asesu
301	Deall rolau, cyfrifoldebau a chysylltiadau mewn addysg a hyfforddiant	Aseiniad - Caiff ei osod gan City & Guilds, ei gyflwyno a'i farcio gan y tiwtor/asesydd, a chaiff ei ansawdd ei sicrhau'n allanol gan City & Guilds i wneud yn siŵr ei fod wedi'i gynnal yn iawn.
302	Deall a defnyddio dulliau addysgu a dysgu cynhwysol mewn addysg a hyfforddiant	Aseiniad - Caiff ei osod gan City & Guilds, ei gyflwyno a'i farcio gan y tiwtor/asesydd, a chaiff ei ansawdd ei sicrhau'n allanol gan City & Guilds i wneud yn siŵr ei fod wedi'i gynnal yn iawn. Arsylwi micro-addysgu neu addysgu gwirioneddol, pa un bynnag sy'n briodol
303	Hwyluso dysgu a datblygiad i unigolion	Portffolio o dystiolaeth
304	Hwyluso dysgu a datblygiad mewn grwpiau	Portffolio o dystiolaeth
305	Deall asesu mewn addysg a hyfforddiant	Aseiniad - Caiff ei osod gan City & Guilds, ei gyflwyno a'i farcio gan y tiwtor/asesydd, a chaiff ei ansawdd ei sicrhau'n allanol gan City & Guilds i wneud yn siŵr ei fod wedi'i gynnal yn iawn.

Uned	Teitl	Dull asesu
306	Deall egwyddorion ac arferion asesu	Aseiniad wedi ei osod yn allanol, ei marcio'n fewnol, a sicrhau ansawdd allanol.

Cyfngiadau amser

Rhaid i ymgeiswyr fod wedi cofrestru gyda City & Guilds o fewn 12 wythnos i ddechrau'r cymhwyster hwn. Rhaid iddynt orffen eu hasesiadau o fewn eu cyfnod cofrestru ac mor agos i'r sesiwn gyflwyno derfynol â phosibl.

Strategaeth asesu

Wrth gynllunio'r rhaglen, gellir cyflwyno'r unedau a ddewiswyd fel unedau 'annibynnol ar eu pennau eu hunain', neu'n gyfannol ar draws y cymhwyster. Fodd bynnag, os yw'r unedau'n cael eu cyflwyno'n gyfannol, rhaid i ganolfannau asesu pob uned yn unigol. Mae hyn er mwyn sicrhau, os bydd ymgeisydd yn gadael y rhaglen cyn cwblhau'r cymhwyster llawn, y bydd y ganolfan yn gallu ardystio'r unedau sydd wedi'u cwblhau.

Rhaid asesu pob uned a ddewisir i sicrhau bod pob maen prawf asesu wedi'i fodloni'n unigol gan bob ymgeisydd.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr adeiladu portffolio o dystiolaeth sydd yn:

- galluogi pob uned i gael ei hasesu'n annibynnol
- galluogi canolfannau i hawlio unrhyw unedau unigol sydd wedi'u cwblhau os yw ymgeisydd yn tynnu'n ôl o'r rhaglen cyn cwblhau'r cymhwyster cyfan.
- rhoi tystiolaeth bod ymgeiswyr wedi cymryd rhan mewn un awr o ficro-addysgu (i gynnwys o leiaf 15 munud o gyflwyno arsylwi) neu addysgu yn yr ystafell ddsbarth go iawn

Darperir aseiniadau enghreifftiol ar gyfer yr unedau canlynol:

Uned 301 Deall rolau, cyfrifoldebau a chysylltiadau mewn addysg a hyfforddiant

Uned 302 Deall a defnyddio dulliau addysgu a dysgu cynhwysol mewn addysg a hyfforddiant

Uned 305 Deall asesu mewn addysg a hyfforddiant

Uned 306 Deall egwyddorion ac arferion asesu

Aseiniadau

Caiff yr asesiadau eu gosod gan City & Guilds a chânt eu gweinyddu gan y ganolfan pan fydd yr ymgeisydd yn barod. Yna cânt eu marcio'n fewnol, gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd a chofnodir y canlyniadau ar y dogfennau a ddarparwyd gan City & Guilds. Mae asesiadau'n amodol ar sicrhau ansawdd mewnol ac allanol. Cyfeiriwch at y pecyn asesu am ragor o wybodaeth.

Aseiniadau a ddyfeisiwyd gan y Ganolfan

Caniateir aseiniadau a ddyfeisiwyd gan y ganolfan ar gyfer y cymhwyster hwn; ar gyfer manylion rhaid i ganolfannau gyfeirio at '*Datblygu aseiniadau – canllaw i ganolfannau*' a'r ffurflenni datblygu aseiniadau cysylltiedig sydd ar gael i'w lawrlwytho o www.cityandguilds.com.

Rhaid i aseiniadau a ddyfeisiwyd gan y Ganolfan gael eu cymeradwyo gan y SSAA cyn eu defnyddio. Ar gyfer pob aseiniad, rhaid cwblhau'r **daflen llofnodi aseiniad (AD3)** a'i bod ar gael i'r Ymgynghorydd Cymwysterau (QC) i'w harchwilio.

Mae rhagor o fanylion ar gael yn y pecyn asesu Dyfarniad Lefel 3 6502 mewn Addysg a Hyfforddiant.

Portffolio o dystiolaeth

Rhaid i'r ganolfan ddarparu tystiolaeth o asesu a sicrhau ansawdd mewnol parhaus. Bydd angen i ymgeiswyr ddangos, drwy gyflwyno tystiolaeth, y gallant fodloni gofynion yr unedau o fewn y cymhwyster a asesir gan bortffolio tystiolaeth. I wneud hyn bydd angen iddynt drefnu eu tystiolaeth yn yr hyn a elwir yn bortffolio. Disgwylir y bydd ymgeiswyr yn darparu amrywiaeth o fathau o dystiolaeth i gefnogi sut maen nhw'n dangos hyfedredd.

Rhaid i'r asesydd benderfynu pryd y mae ymgeiswyr wedi bodloni'r safon sy'n ofynnol ac yna gwblhau cofnodion asesu, yn seiliedig ar eu sylwadau neu fathau eraill o dystiolaeth a gyflwynir gan yr ymgeisydd.

Os caiff uned ei hatgyfeirio, rhaid i'r ganolfan ddarparu adborth a chymorth priodol i alluogi'r ymgeisydd i ailgyflwyno.

Os yw ymgeisydd wedi cael ei atgyfeirio ac os nad yw'n bodloni'r meini prawf asesu yn yr ailgyflwyno dilynol, dylai'r ganolfan naill ai:

- trefnu cefnogaeth ychwanegol i'r ymgeisydd, neu
- arwain yr ymgeisydd tuag at gymhwyster mwy addas, neu
- hysbysu'r ymgeisydd o'r hawl i apelio, fel yr amlinellir yn adran 2.4.

Rhaid i ganolfannau gofnodi unrhyw gamau a gymerwyd a/neu unrhyw gefnogaeth ychwanegol a roddwyd i'r ymgeiswyr. Mae'n rhaid bod gan ganolfannau bolisi cyfeirio cadarn ar waith. Dylid cynnal asesiad (gan gynnwys marcio) ac adborth o fewn pythefnos o gyflwyno'r unedau a gwblhawyd. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer asesu ffurfiannol a sicrhau ansawdd mewnol parhaus.

Wrth farcio gwaith ymgeiswyr, dylai tiwtoriaid ddefnyddio eu barn broffesiynol i sicrhau bod yr holl feini prawf asesu'n cael eu bodloni.

Cydnabod dysgu blaenorol (CDB)

Caniateir cydnabod dysgu blaenorol (CDB) ar gyfer pob uned. Mae hyn yn golygu defnyddio profiad neu gymwysterau blaenorol unigolyn sydd eisoes wedi'u cyflawni i gyfrannu at gymhwyster newydd.

Os bydd unrhyw gyflawniad blaenorol yn cael ei gario ymlaen i'r Dyfarniad Lefel 3 mewn Addysg a Hyfforddiant, rhaid i'r ganolfan gadw tystiolaeth o'r cyflawniad blaenorol at ddibenion sicrhau ansawdd mewnol ac allanol.

Disgrifyddion Lefel

Dylid cymhwyso disgrifyddion Lefel 3 i dystiolaeth wybodaeth gan ymgeiswyr, aseswyr a sicrhawyr ansawdd. Gellir adnabod Lefel 3 gan yr ymgeisydd sy'n dangos:

- gwybodaeth am egwyddorion perthnasol, a lle y bo'n briodol, damcaniaethau sy'n berthnasol i'r sector addysg bellach a hyfforddiant
- tystiolaeth o ddarllen priodol sy'n ymwneud ag egwyddorion, damcaniaethau ac ymarfer
- Ystyried sut mae gwerthoedd proffesiynol yn effeithio ar weithio yn y sector addysg bellach a hyfforddiant
- Tystiolaeth o ddull myfyriol

5 Unedau

Strwythur unedau

Mae gan bob un o'r unedau hyn y canlynol:

- Cyfeirnod City & Guilds
- rhif achredu uned (RHAU)
- teitl
- lefel
- gwerth credydau
- oriau dysgu dan arweiniad
- nod yr uned
- perthynas â SGC, cymwysterau a fframweithiau eraill
- cymeradwyaeth gan sector neu gorff priodol arall
- gwybodaeth am asesu
- canlyniadau dysgu sy'n cynnwys nifer o feini prawf asesu
- nodiadau ar gyfer arweiniad.

Crynodeb o'r unedau

Uned	Teitl	RHAU	Credydau
301	Deall rolau, cyfrifoldebau a chysylltiadau mewn addysg a hyfforddiant	H/505/0053	3
302	Deall a defnyddio dulliau addysgu a dysgu cynhwysol mewn addysg a hyfforddiant	D/505/0052	6
303	Hwyluso dysgu a datblygiad i unigolion	J/502/9549	6
304	Hwyluso dysgu a datblygiad mewn grwpiau	F/502/9548	6
305	Deall asesu mewn addysg a hyfforddiant	R/505/0050	3
306	Deall egwyddorion ac arferion asesu	D/601/5313	3

Uned 301 Deall rolau, cyfrifoldebau a chysylltiadau mewn addysg a hyfforddiant

RHAU:	H/505/0053
Lefel:	3
Gwerth credyd:	3
ODDA:	12
Asesu	Asesir yr uned hon trwy aseiniad
Perthynas â SGC:	Caiff yr uned hon ei seilio ar y safonau proffesiynol cwmpasol ar gyfer yr athro, tiwtoriaid a hyfforddwyr yn y sector dysgu gydol oes.
Cymeradwyaeth gan sector neu gorff rheoleiddio:	Caiff yr uned hon ei chymeradwyo gan y Gwasanaeth Gwella Dysgu a Sgiliau (LSIS)
Nod:	Pwrpas yr uned yw galluogi'r ymgeisydd i ddeall rôl a chyfrifoldebau athro mewn addysg a hyfforddiant a'r berthynas rhwng gwahanol weithwyr proffesiynol mewn addysg a hyfforddiant. Mae'n cynnwys cyfrifoldeb am gynnal amgylchedd dysgu diogel a chefnogol i'w dysgwyr.

Canlyniad dysgu
Bydd y dysgwr yn: 1. Deall rôl a chyfrifoldebau addysgu mewn addysg a hyfforddiant
Meini prawf asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 esbonio rôl a chyfrifoldebau addysgu mewn addysg a hyfforddiant 1.2 crynhoi agweddau allweddol ar ddeddfwriaeth, gofynion rheoleiddiol a chodau ymarfer sy'n ymwneud â'u rôl a chyfrifoldebau eu hunain 1.3 esbonio ffyrdd o hyrwyddo cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth 1.4 esbonio pam mae hi'n bwysig nodi a bodloni anghenion dysgwyr unigol.

Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

2. Deall ffyrdd o gynnal amgylchedd dysgu diogel a chefnogol

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 2.1 esbonio ffyrdd o gynnal amgylchedd dysgu diogel a chefnogol
- 2.2 esbonio pam mae hi'n bwysig hyrwyddo ymddygiad a pharch priodol tuag at eraill.

Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

3. Deall y berthynas rhwng athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill mewn addysg a hyfforddiant

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 3.1 esbonio sut mae'r rôl addysgu'n cynnwys gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill
- 3.2 egluro'r ffiniau rhwng y rôl addysgu a rolau proffesiynol eraill
- 3.3 disgrifio pwyntiau atgyfeirio i ddiwallu anghenion unigol dysgwyr.

Uned 301 Deall rolau, cyfrifoldebau a chysylltiadau mewn addysg a hyfforddiant

Gwybodaeth ategol

Arweiniad

Uned 001 o'r Lefel 3 flaenorol Paratoi i Addysgu yn y Sector Dysgu Gydol Oes yw'r uned hon a dim ond mân newid sydd i'r uned hon. Mae'n gyffredin i'r Dyfarniad Lefel 3 mewn Addysg a Hyfforddiant ac i Dystysgrif Lefel 4 mewn Addysg a Hyfforddiant, a chaiff unrhyw ymgeisydd sydd wedi ennill yr uned hon yn y Dyfarniad Lefel 3 ei eithrio rhag ei ailadrodd os yw'n penderfynu ymgymryd â'r Dystysgrif Lefel 4 mewn addysg.

Mae'r uned hon yn ymwneud â rolau a chyfrifoldebau athro/hyfforddwr. I ddangos eu gwybodaeth, bydd ymgeiswyr yn ystyried sut mae eu rolau a'u cyfrifoldebau fel athro/hyfforddwr yn cysylltu â'r cylch addysgu/hyfforddi. Byddant yn ymchwilio i ddeddfwriaeth generig sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant, a hefyd unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n cysylltu â'u maes sgiliau, neu faes addysgu. Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ymddangos yn gryf yn yr uned hon ynghyd â phwysigrwydd cynwysoldeb a diwallu anghenion dysgwyr. Mae gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill yn rhan bwysig o unrhyw rôl addysgu/hyfforddi, a bydd dysgwyr yn archwilio ystyr ffiniau proffesiynol a phwyntiau atgyfeirio posibl.

Uned 302 Deall a defnyddio dulliau addysgu a dysgu cynhwysol mewn addysg a hyfforddiant

RHAU:	D/505/0052
Lefel:	3
Gwerth credyd:	6
ODDA:	24
Asesu	Asesir yr uned hon trwy aseiniad
Perthynas â SGC:	Caiff yr uned hon ei seilio ar y safonau proffesiynol cwmpasol ar gyfer yr athro, tiwtoriaid a hyfforddwyr yn y sector dysgu gydol oes.
Cymeradwyaeth gan sector neu gorff rheoleiddio:	Caiff yr uned hon ei chymeradwyo gan y Gwasanaeth Gwella Dysgu a Sgiliau (LSIS)
Nod:	Pwrpas yr uned yw galluogi'r ymgeisydd i ddeall a defnyddio dulliau addysgu a dysgu cynhwysol i ddiwallu anghenion dysgwyr. Mae'n cynnwys sut i greu amgylchedd dysgu sy'n ymgysylltu ac yn cymell ymgeiswyr, a chynllunio, cyflwyno a gwerthuso addysgu a dysgu cynhwysol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddarparu addysgu a dysgu cynhwysol

Canlyniad dysgu
Bydd y dysgwr yn: 1. Deall sut addysgu a dysgu cynhwysol mewn addysg a hyfforddiant
Meini prawf asesu
